

# Eglwys ar gyfer y Dyfodol

## Cymorth ar gyfer CAG ynghylch Cymynroddion ac Ewyllysiau

Pam mae'r Eglwys yn annog pobl i adolygu eu hewyllysiau

Penderfyniadau ar gyfer eich CAG ynghylch ewyllysiau a chymynroddion

Pam y dylai'r CAG lunio polisi cymynroddion

Derbyn cymynrodd

YR EGLWYS YNG NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

# Pam y dylai fod gan bob Cristion ewyllys

Pam y'ch anogir fel CAG i feddwl ynghylch cymynroddion? Sut mae hynny'n rhan o'n ffydd Gristnogol?

A ydym yn credu bod popeth sydd gennym yn dod oddi wrth Dduw a'i fod ef yn ymddiddori yn y modd y byddwn yn defnyddio'r hyn a roddodd i ni? Os felly, mae'n dilyn y bydd Duw'n ymddiddori hefyd yn y modd y byddwn yn cynllunio ar gyfer y defnydd a wneir o'n harian a'n hasedau ar ôl i ni farw.

Y mae gennym fel Eglwys reswm da i fod yn ddiolchgar i'r cenedlaethau lawer a aeth o'n blaen. Trwy eu stiwardiaeth Gristnogol dda a'u cymynroddion hael maent wedi darparu at genhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys dros sawl canrif, ac rydym yn parhau i fwynhau ffrwyth hynny heddiw.

Bob blwyddyn, bydd miloedd o bobl yn marw heb wneud ewyllys. Gall hyn achosi cymhlethdodau dianghenraid i'w teuluoedd a'u cyfeillion ac yn aml gall olygu na chyflawnir eu dymuniadau. Mae sawl rheswm da pam y dylem annog pobl i wneud ewyllys: gofal bugeiliol, rheolaeth dda ar arian personol a'r ddysgeidiaeth ar stiwardiaeth Gristnogol. Mae gwneud ewyllys a'i diweddaru'n gyson yn beth symlach a rhatach nag y mae llawer o bobl yn ei ddychmygu.

**GWEITHREDU**

Gofynnir i'r CAG gadarnhau ei ymrwymiad i annog pobl i wneud ewyllys ac i'w hadolygu fel rhan o'u stiwardiaeth Gristnogol.

# Polisi ynghylch cymynroddion

Dim ond os ydynt yn tybio y bydd eu heglwys yn eu defnyddio at brosiectau datblygu, yn hytrach nag at ariannu costau cynnal cyfredol, y bydd y rhan fwyaf o bobl yn barod i adael rhoddion i'r eglwys yn eu hewyllys. Y peth gorau yw i CAGau gytuno ar bolisi ynghylch sut y bydd incwm o gymynroddion yn cael ei wario ac wedyn ystyried sut orau i hysbysu'r gynulleidfa ynghylch y polisi. Mae'n well annog peidio â gadael cymynroddion cyfyngedig gan y bydd anghenion yr eglwys yn newid gydag amser.

Felly gallai'r polisi edrych yn debyg i'r canlynol:

> Polisi'r CAG yw defnyddio cymynroddion i gynorthwyo ag ariannu prosiectau datblygu o bwys yn yr eglwys, boed y rheini'n ymwneud ag adeiladau, offer neu staff. Wrth i amgylchiadau newid dros y blynyddoedd fe all ddigwydd na fydd yn bosibl cyflawni dymuniadau penodol y rhoddwr, ac anogir aelodau'r eglwys felly i adael cymynroddion ar gyfer dibenion cyffredinol yr eglwys.

**GWEITHREDU**

Dylai'r CAG gytuno ar bolisi syml ar ddefnyddio cymynroddion a sicrhau bod y gynulleidfa gwybod beth yw'r polisi.

# Hyrwyddo gadael cymynroddion

Gall cymynroddion wneud gwahaniaeth hollbwysig i genhadaeth a gweinidogaeth leol eich eglwys, pa un bynnag a ddefnyddir hwy at benodi aelod(au) staff ychwanegol neu at wella adeiladau a chyfleusterau'r eglwys. Y prif nod yw annog pobl i adolygu eu hewyllys yn gyson fel rhan o'u hymroddiad Cristnogol beunyddiol.

Dylid hyrwyddo'r cyfle i adael rhodd i'r eglwys mewn ffordd sensitif a thawel, gan gyfleu'r neges yn gyson mewn gwahanol ffyrdd drwy'r blynyddoedd. Dylid teilwra'r negeseuon ar gyfer gwahanol grwpiau (er enghraifft, teuluoedd ifanc, y rhai mae eu plant wedi gadael cartref a phobl hen iawn) yn unol ag anghenion penodol y bobl dan sylw.

**GWEITHREDU**

Gall y CAG weld budd mewn penodi rhywun a fydd yn barod i annog gadael cymynroddion a rhoi yn gyffredinol yn yr eglwys. Mae llawer o adnoddau ar gael i'w cynorthwyo yn y weinidogaeth bwysig hon.

# Pam y dylai'r CAG ystyried ewyllysiau a chymynroddion

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf derbyniodd bron i hanner yr Ardaloedd Genhedaeth yr Eglwys yng Nghymru gymynrodd. Mae rhai'n eu derbyn fel rhoddion derbyniol ond annisgwyl, tra bydd eraill yn mynd ati i annog pobl i adael cymynrodd i'w heglwys.

I lawer o bobl, gadael rhodd yn eu hewyllys yw eu cyfle olaf i ddiolch i Dduw am ei fendithion ac i gynorthwyo â datblygiad teulu'r eglwys i'r dyfodol.

**GWEITHREDU**

Anogir y CAG i i roi adolygiad o etifeddiaeth gan roi cynnydd ar ei agenda ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

# Canllawiau ynghylch derbyn cymynrodd

## Rhagarweiniad

Mae'r adnodd hwn yn cynnig canllawiau ar gyfer y CAG ynghylch y broses o dderbyn cymynrodd, yn ogystal â gwybodaeth bellach ynghylch cymynroddion elusennol.

Dechreuwn gyda Rhestr Termau y gallwch gyfeirio ati:

**CYMYNNWR/CYMYNWRAIG:** Unigolyn sydd wedi gwneud ewyllys.

**BUDDIOLWR:** Unigolyn neu sefydliad y gadawyd rhywbeth ar ei gyfer/chyfer mewn ewyllys.

**YSGUTOR(IAID):** Unigolyn/unigolion a benodir i weithredu gofynion yr ewyllys.

**DIEWYLLYS:** Defnyddir i ddisgrifio rhywun a fu farw heb wneud ewyllys.

**PROFIANT:** Profi ewyllys yn swyddogol.

**YSTÂD:** Cyfanswm y meddiannau, yr eiddo a'r arian a adewir ar ôl i rywun farw pan fydd dyledion wedi'u talu.

**CODISIL:** Dogfen a ddefnyddir i newid ewyllys a wnaed eisoes.

**CYMYNRODD:** Rhodd drwy ewyllys, fel arfer arian a adewir i unigolyn neu sefydliad.

**CYMYNRODD WEDDILLIOL:** Rhodd (y cyfanswm neu o'r gweddill) o'r ystâd ar ôl didynnu pob rhodd arall a chlirio dyledion.

**CYMYNRODD ARIANNOL:** Rhodd o swm penodol o arian.

**CYMYNRODD BENODOL:** Eitem benodol a enwir a adewir fel rhodd yn yr ewyllys, er enghraifft, darn o emwaith, dodrefnyn, llun ac ati.

# Cyflwyniad i Dderbyn Cymynrodd

## Beth yw cymynrodd?

Rhodd a wneir drwy ewyllys yw cymynrodd, fel arfer swm o arian neu eiddo a adewir i unigolyn neu sefydliad. Mae cymynroddion yn hollbwysig ar gyfer ein Heglwys.  Bob blwyddyn bydd miloedd o bobl yn gadael cymynrodd i ryw ran o’r Eglwys yng Nghymru: rhoddion i ariannu prosiectau cenhadol, i gynnal adeiladau eglwysig hardd ac i feithrin cymunedau ffyddlon. Os yw eich eglwys (y CAG yn dechnegol) yn derbyn cymynrodd, cyfeirir atoch fel ‘buddiolwr elusennol’.

## Buddiolwyr lluosog

Fel arfer, enwir mwy nag un buddiolwr eglwysig/elusennol mewn ewyllys. Felly dylech geisio cydweithredu i ddatrys unrhyw gymhlethdodau ynghylch yr ystâd a gweithio drwy un cyfreithiwr er mwyn sicrhau’r swm mwyaf a ellir i’w rannu rhyngoch.

Gall fod yn fuddiol os cytunir ar **‘Elusen Arweiniol’**. Bydd yr Elusen Arweiniol yn gweithredu fel prif gyswllt ac yn cynrychioli’r holl fuddiolwyr elusennol gan felly gwtogi ar y nifer o lythyrau a anfonir ac a dderbynnir ac o reidrwydd yn cyflymu’r broses. Fel arfer, y buddiolwr elusennol a enwir gyntaf yn yr ewyllys fydd yr Elusen Arweiniol. Dewis arall fyddai’r elusen fwyaf neu’r elusen sy’n derbyn y budd mwyaf o’r ystâd. Mae gan lawer o elusennau cenedlaethol swyddogion cymynroddion arbenigol ac mae’r elusennau hyn yn barod i weithredu fel yr Elusen Arweiniol i gynorthwyo elusennau llai megis eglwysi.

Dylid nodi, hyd yn oed os yw Elusen Arweiniol yn rheoli gweinyddu’r ystâd, ei bod yn parhau’n briodol i chi ymateb i’r ysgutor i gynnig eich cydymdeimlad, eich gweddïau a’ch gwerthfawrogiad o amser yr ysgutor ac o’r rhodd a dderbyniwyd.

## Cadw cofnodion

Mae’n bwysig cadw’r holl lythyrau, llungopïau a phapurau sy'n gysylltiedig â phob cymynrodd gyda’i gilydd mewn ffeil yn nhrefn amser.

Os derbyniwch gymynrodd weddilliol, fe’ch cynghorir yn gryf i gadw taflen dyddiadur lle gallwch nodi pob gweithred, gohebiaeth a galwad ffôn.

# Cyflwyniad i Swyddogaeth yr Ysgutor

## Beth yw ysgutor?

Unigolyn yw ysgutor a benodir gan y cymynnwr (y sawl sy'n gwneud ewyllys) i weinyddu'r ystâd ac i gyflawni gofynion yr ewyllys. Nid yw bod yn ysgutor yn hawdd – gall y gwaith fod yn heriol, ond gall hefyd roi boddhad. Er ei bod yn adeg anodd, bydd gweinyddu ystâd yn ymdrin â phopeth sydd ar ôl i'w wneud, gan adael gosteg a heddwch i'r rhai a adawyd.

Mae **ysgutorion proffesiynol** megis cyfreithwyr neu fanciau yn cael eu talu am eu gwasanaeth a bydd eu costau cyfreithiol yn cael eu didynnu o ystâd yr ymadawedig.

Nid yw **ysgutorion lleyg** yn bobl broffesiynol yn y maes ac o'r herwydd efallai mai prin fydd eu gwybodaeth ynghylch sut i weinyddu ystâd. Fodd bynnag, gan y byddant yn rhoi o'u hamser a'u hegni'n wirfoddol, ni ddidynnir fawr ddim o gostau cyfreithiol o ystâd yr ymadawedig.

Dylech gofio y gallai fod gan ysgutor lleyg swydd ran amser a chyfrifoldebau teuluol ac yn aml gall yr ysgutor ei hun fod yn galaru am y rhoddwr. Felly cofiwch ddangos cydymdeimlad ac amynedd o dan y fath amgylchiadau.

Rydym hefyd yn annog y CAG i weddïo dros yr ysgutor a thros y gwaith pwysig mae wedi bod mor garedig â'i ysgwyddo i weinyddu'r ystâd.

Mae cyngor ar gael ar gyfer ysgutorion lleyg: *Where a will contains a Legacy to a Church*.

## Canfod cysylltiad y cymynnwr â'r eglwys

Efallai na fydd y CAG yn adnabod nac yn cofio pwy yw'r rhoddwr hael, ond nid dyna'r peth pwysicaf bob tro – yr hyn sy'n bwysig yw bod y rhoddwr wedi eich cofio chi!

Efallai y bydd yr ysgutor yn gallu awgrymu beth yw cysylltiad y cymynnwr â'r eglwys. Gall fod yn syniad da holi eich Cyngor Plwyf Eglwysig a'r gynulleidfa i weld a oes unrhyw un a adwaenai'r cymynnwr. Os na ddaw unrhyw wybodaeth y ffordd honno, edrychwch ar gofnodion eich rhôl etholwyr, y llyfr ymwelwyr, y cofnodion bedyddiadau, priodasau ac angladdau a/neu'r cerrig bedd yn y fynwent sy'n dwyn yr un enw teuluol.

## Ymateb y CAG i'r Hysbysiad

### Hysbysu ynghylch cymynrodd

Bydd yr ysgutor yn hysbysu'r eglwys ynghylch y farwolaeth a'r ffaith bod ewyllys yr ymadawedig yn cynnwys rhodd i'r eglwys ar ddechrau proses gweinyddu'r ystâd.

**Bydd yr ysgutor fel arfer yn cynnwys y canlynol yn y llythyr cychwynnol:**

- Enw a chyfeiriad yr ymadawedig.
- Y dyddiad y bu farw'r ymadawedig.
- Cadarnhad bod rhodd i'r eglwys yn ewyllys yr ymadawedig.
- Y dyddiad y disgwylir cwblhau profi'r ewyllys.

- Gofyn am gadarnhau statws elusennol y buddiolwr.

**Cyn gynted ag y derbyniwch yr hysbysiad, ysgrifennwch at yr ysgutorion gan gynnwys y canlynol yn eich neges:**

- Cynigiwch gydymdeimlad a gweddïau'r eglwys a diolch yr eglwys am y rhodd.
- Nodwch fanylion cyswllt cyfredol Trysorydd y CAG a/neu'r Periglor.
- Nodwch eich manylion banc os dymunwch dderbyn taliad uniongyrchol.
- Cadarnhewch eich bod yn elusen gofrestredig a nodwch eich rhif elusen gofrestredig os yw'n berthnasol.
- Gofynnwch am gael llungopi o'r ewyllys neu ran o'r ewyllys ac unrhyw godisiliau.

Unwaith y byddwch wedi derbyn hysbysiad ynghylch cymynrodd, efallai y byddwch am gynnull y CAG ynghyd i ystyried yn weddigar y gwahanol ddewisiadau parthed defnyddio'r gymynrodd.

## Copi o'r ewyllys

Hyd y bydd wedi ei phrofi bydd yr ewyllys yn gyfrinachol a rhaid i'r CAG gydnabod a pharchu hynny. Ar ôl y profi, daw'r ewyllys yn ddogfen gyhoeddus. Er mwyn sicrhau bod yr eglwys yn derbyn yr holl swm a roddwyd, dylid gwirio'r ewyllys yn ofalus i sicrhau ei bod yn ymddangos yn ddilys. Gwiriwch fod yr ewyllys a'r codisiliau wedi eu llofnodi'n briodol a bod dau unigolyn annibynnol wedi tystio iddi, dau unigolyn nad ydynt yn fuddiolwyr ac yr oedd y ddau ohonynt yn bresennol adeg y llofnodi. Mae gofyn i godisiliau gyfeirio at yr ewyllys wreiddiol a'i dyddiad a bod â dau dyst. Gall ysgutorion fod yn fuddiolwyr ac fe fyddant felly yn aml.

**Unwaith y byddwch wedi derbyn copi o'r ewyllys, gallwch ganfod:**

1. y math o gymynrodd y bydd yr eglwys yn ei derbyn (gweddilliol, ariannol, penodol);
2. a oes unrhyw gyfyngiadau ynghlwm â'r rhodd ar gyfer defnydd penodol neu gronfa benodol;
3. a yw manylion y buddiolwr yn gywir (enw, rhif elusen, esgobaeth);
4. a enwir unrhyw fuddiolwyr elusennol eraill.

## Gwiriwch fod y Manylion yn Gywir

### Santes Fair a Santes Fair

Os oes unrhyw amwysedd ynghylch enwi'r eglwys fel y buddiolwr a fwriedir, gall yr ysgutorion ofyn i chi ddarparu tystiolaeth ynghylch cysylltiad y cymynnwr â'r eglwys. Gall fod yn syniad da gofyn i'ch CAG a'r gynulleidfa a oedd unrhyw un yn adnabod y cymynnwr. Os nad oes, gwiriwch y cofnodion o'r gorffennol yn eich rhôl etholwyr, y llyfr ymwelwyr, cofnodion bedyddiadau a phriodasau ac angladdau a/neu'r cerrig bedd yn y fynwent sydd â'r un enw teuluol.

Mae'r geiriad safonol ar gyfer cymal cymynrodd yn gofyn cynnwys enw'r eglwys, y cyfeiriad, y rhif elusen gofrestredig (os yw'n berthnasol) ac enw'r esgobaeth er mwyn osgoi amwysedd. Pan fyddwch yn derbyn copi o'r ewyllys, mae'n bwysig gwirio bod y manylion hyn yn gywir.

### Y corff derbyn priodol

Y Cynhadledd Ardal Genhadaeth yw'r dewis arferol i fod yn dderbynnydd unrhyw gymynrodd. Yn y gorffennol, byddai enwi'r ficer a wardeiniaid yr eglwys yn arfer gyffredin, ymhlith posibiliadau eraill. Deillia'r arfer hwnnw o'r dyddiau cyn bod Cynghorau Plwyf Eglwysig a Cynhadleddau Ardal Genhadaeth yn bodoli; bellach, y CAG yw ymddiriedolwyr cyfreithiol arian yr eglwysi.

### Rhif Elusen Gofrestredig

Mae gan bob CAG statws elusennol ac ar hyn o bryd nid oes raid i CAGau gofrestru â'r Comisiwn Elusennau, oni bai fod ganddynt incwm blynyddol sy'n uwch na £100,000 - bydd y rheini wedi'u cofrestru a bydd ganddynt rif elusen unigol. Mae'n bwysig rhoi eich rhif elusen gofrestredig i'r ysgutor os oes gennych un NEU eich bod yn cadarnhau nad oes gennych rif elusen gofrestredig ond bod i chi statws elusennol.

## Cymynroddion Anghyfyngedig a Chyfyngedig

### Canfod diddordebau'r cymynnwr

Mae gan lawer o Gynghorau Plwyf Eglwysig Bolisi ynghylch Cymynroddion parthed y modd y byddir yn gwario unrhyw incwm a ddaw o gymynroddion.

Gan fod anghenion yn newid dros y blynyddoedd, mae llawer o CAGau yn annog gadael rhoddion ar gyfer dibenion cyffredinol yr eglwys yn hytrach na diben cyfyngedig.

**Cymynroddion anghyfyngedig:** Nid yw'r rhan fwyaf o gymynroddion i eglwysi yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y modd y gall y CAG wario'r rhodd. Yn dibynnu ar y math o gysylltiad a oedd gan y cymynnwr â'r eglwys, efallai y byddwch am drafod ffyrdd posibl o ddefnyddio'r arian â'r ysgutor ac, os yn briodol, ag aelodau'r teulu.

Gofynnwch i'r ysgutor a oedd y rhoddwr wedi mynegi unrhyw ddymuniadau'n anffurfiol ynghylch y defnydd o'r rhodd. Gallech ofyn hefyd a fyddai'n arbennig o briodol cofio cyswllt y cymynnwr â'r eglwys mewn rhyw ffordd sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n wybyddus am feysydd diddordeb y cymynnwr yn yr eglwys a blaenoriaethau'r eglwys ar y pryd. Er enghraifft, gallai ddigwydd bod y cymynnwr wedi cyfrannu at weinidogaeth gerddorol yr eglwys a bod angen gwisgoedd newydd ar gyfer y côr neu lyfrau emynau newydd yn awr.

**Llythyr Dymuniadau:** Gallai Llythyr Dymuniadau fod wedi ei gynnwys ar y cyd â'r ewyllys. Nid yw'r dymuniadau a nodir yn rhwymo'r CAG yn gyfreithiol; fodd bynnag, dylid eu parchu pryd bynnag y gellir. Unwaith eto, siaradwch â'r ysgutor ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio'r rhodd i anrhydeddu dymuniadau'r ymadawedig ac i fodloni blaenoriaethau cyllido presennol yr eglwys.

**Cymynrodd gyfyngedig:** Os yw'r rhodd yn gyfyngedig, bydd angen i'r CAG sicrhau y gellir defnyddio'r rhodd yn unol â'r cyfyngiad. Os na ellir diwallu'r diben elusennol penodol a nodir yn yr ewyllys, dylech gysylltu â'r ysgutor i drafod sut y gellid newid amodau'r rhodd fel y gellir defnyddio'r rhodd ar gyfer dibenion sy'n gyffredinol debyg.

Er enghraifft, gallai cymynrodd fod yn gyfyngedig i 'atgyweirio'r tŵr' ond bod yr eglwys wedi atgyweirio'r tŵr bum mlynedd ynghynt ac na fydd angen ei atgyweirio eto am gan mlynedd. Fodd bynnag, mae'r eglwys wrthi'n codi arian ar y pryd ar gyfer atgyweirio'r to a gellid awgrymu y dylid ehangu amodau'r rhodd i gyfeirio at 'atgyweirio'r to', diben sy'n gyffredinol debyg i'r hyn a fwriadodd y cymynnwr yn wreiddiol.

**Cynlluniau elusennol:** Os na all yr ysgutor a'r CAG gytuno, gall y CAG wneud cais i'r Comisiwn Elusennau am 'gynllun' i ailgyfeirio'r arian cymynrodd. Am

ragor o wybodaeth, cliciwch yma:
http://www.parishresources.org.uk/wpcontent/uploads/restrictedfunds.pdf

# Derbyn Cymynrodd Ariannol

## Cymynroddion swm penodol (cymynroddion ariannol)

Os cyfandaliad penodol neu eitem benodol yw'r gymynrodd yr unig beth sydd ei angen arnoch yw llungopi o'r rhan honno o'r ewyllys, sy'n nodi beth fyddwch yn ei dderbyn.

Fel arfer, bydd yr ysgutorion yn talu cymynroddion ariannol o fewn ychydig fisoedd ar ôl marw'r cymynnwr. Bydd yr ysgutor fel arfer yn anfon siec (yn daladwy i'r Cynhadledd Ardal Genhadaeth), neu'n trefnu trosglwyddiad o'r banc ar gyfer y swm cywir, gyda llythyr yn cadarnhau enw a chyfeiriad yr ymadawedig ac unrhyw wybodaeth arall a allai fod o gymorth.

## Derbyn llai na'r disgwyl o gymynrodd ariannol

Mae'n bosibl y bydd y cymynnwr wedi gwario'r rhan fwyaf o'i (h)arian cyn marw (er enghraifft, ar ffioedd cartref gofal) ac nad yw'r ystâd bellach yn ddigon mawr i dalu'r holl fuddiolwyr. Yn yr achos hwnnw, bydd yr ystâd wedi'i lleihau a lleiheir unrhyw gymynroddion ariannol yn unol â maint yr ystâd sydd bellach ar gael. Os digwydd hynny, gofynnwch yn garedig i'r ysgutor am restr o asedau a rhwymedigaethau ac am gyfrifon yr ystâd, a pheidiwch â'u cymeradwyo nes byddwch wedi eu gwirio'n ofalus yn erbyn yr ewyllys a'r codisiliau.

## Coffáu a derbyn taliad

Gweler yr adran Derbyn y Taliad am fanylion camau terfynol derbyn taliad o gymynrodd ariannol ac ynghylch coffáu'r cymynnwr a'i r(h)odd hael.

## Cymynroddion sy'n gyfran o'r hyn sydd ar ôl (cymynroddion gweddilliol)

Y gweddill yw'r hyn sydd ar ôl yn dilyn talu'r holl ddyledion ar yr ystâd, y trethi dyladwy, y cymynroddion ariannol a'r costau gweinyddol. Gall hi fod yn rai misoedd neu flynyddoedd cyn y telir cymynroddion gweddilliol yn llawn gan y gall gymryd cryn amser i weinyddu'r ystâd a'i dirwyn i ben.

Mae'r Comisiwn Elusennau'n mynnu bod buddiolwyr elusennol cymynroddion gweddilliol yn gofyn i'r ysgutor am sawl dogfen sylfaenol ynghylch yr ystâd ac am wybodaeth fanylach yn nes ymlaen wrth i'r gweinyddu fynd rhagddo.

**Bydd y rheini'n cynnwys:**

- **Llungopi o'r ewyllys**, a hynny gyda'ch llythyr cyntaf os yn bosibl.
- **Copi o'r Rhestr Asedau a Rhwymedigaethau.** Bydd y rheini'n cynnwys eiddo tiriog, cyfranddaliadau, creiriau gwerthfawr, gweithiau celf a gemwaith.
- **Prisiadau asedau sylweddol** – megis tai neu dir.
- **Cyfrifon yr ystâd** – mae'n ofyniad cyfreithiol darparu'r rhain ar gyfer unrhyw fuddiolwr sy'n gwneud cais amdanynt.
- **Tystysgrifau didynnu treth**

Wrth i'r gwaith gweinyddu fynd rhagddo, dylai'r ysgutor eich hysbysu ynghylch unrhyw broblemau o bwys, megis hawliadau ar yr ystâd, costau na ragwelwyd neu sy'n fwy na'r disgwyl, unrhyw anghytundebau a allai arwain at gynnen neu ymgyfreitha, neu unrhyw geisiadau syml gan y teulu nad yw'r ewyllys yn eu cwmpasu ond y gellid yn hawdd ymdrin â hwy.

Os na fyddwch wedi clywed unrhyw beth o fewn yr hyn a ystyrir yn gyfnod rhesymol, efallai y byddwch am holi ynghylch sut mae pethau'n mynd. Sicrhewch na fyddwch yn rhoi'r argraff eich bod am brysuro pethau neu am roi pwysau ar yr ysgutor, ond yn hytrach eich bod am gael sicrwydd bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn foddhaol.

## Asedau a Rhwymedigaethau

Os byddwch yn derbyn cymynrodd weddilliol, cyfrifoldeb y CAG yw sicrhau y gwneir y gorau o werth yr ystâd weddilliol. Mae'n rhaid i chi ystyried dau faes: asedau a rhwymedigaethau.

## Asedau

Mae'n debyg mai'r prif asedau fydd adeiladau, buddsoddiadau a chynilon. Dylech ofyn am brisio eitemau o bwys (er enghraifft, adeiladau neu eitemau eiddo gwerthfawr) yn annibynnol. Os bydd unrhyw amheuaeth, gofynnwch am ddau brisiad annibynnol.

**Tai:** Os oes yna unrhyw asedau o bwys megis tai, nad ydynt i'w gwerthu'n syth, dylech wirio bod yr ysgutorion yn yswirio ac yn trefnu cynnal a chadw'r eiddo'n briodol a gofyn am dystiolaeth ynghylch hynny os bydd angen.

**Stociau a chyfranddaliadau:** Os yw'r ystâd yn cynnwys stociau a chyfranddaliadau sylweddol, efallai bydd raid i'r ysgutorion dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw gynnydd yn eu gwerth ers marw'r cymynnwr. Gall hynny leihau gwerth yr ystâd. Gall yr ysgutorion ddynodi'r gyfran briodol o'r stociau a'r cyfranddaliadau'n eiddo'r buddiolwyr elusennol, gan gynnwys yr eglwys. Gan fod y CAG yn elusen, nid yw'n talu treth enillion cyfalaf.

**Eitemau eiddo:** Fe ddigwydd yn aml nad yw'r rhoddwr wedi gadael unrhyw gyfarwyddiadau penodol ynghylch sut y dylid ymdrin ag eitemau yn y cartref megis dodrefn, lluniau a gemwaith. Mae gan y rhan fwyaf o elusennau bolisi sy'n caniatáu trosglwyddo'n uniongyrchol unrhyw eitemau o werth sentimental i berthnasau a chyfeillion agos cyn belled bod yr ysgutor yn cytuno. Fodd bynnag, dylid prisio eitemau yr ystyrir eu bod yn werth mwy na chan punt yn annibynnol a'u cynnig i berthnasau sydd â diddordeb ynddynt am y pris a bennir.

## Rhwymedigaethau

Bydd gan unrhyw ystâd rai rhwymedigaethau. I gyfrifo gwerth gweddilliol yr ystâd, rhaid cofio bod rhai pethau penodol yn lleihau gwerth gros cyfanswm yr asedau:

- Costau'r angladd, tystysgrifau marwolaeth a ffioedd cysylltiedig eraill.
- Dyledion, morgeisi a biliau oedd heb eu talu pan fu farw'r ymadawedig.
- Treth etifeddiant, treth incwm a threth enillion cyfalaf.
- Ffioedd proffesiynol.
- Cymynroddion a nodir yn yr ewyllys.

Gallwch ganfod manylion y rhwymedigaethau yn y rhestr asedau a rhwymedigaethau, ac yng nghyfrifon terfynol yr ystâd. Dyletswydd y CAG yw ceisio sicrhau lleihau gwerth y rhwymedigaethau gymaint ag y gellir er mwyn

gwarchod y gwerth gweddilliol. Fodd bynnag, dim ond rhwymedigaethau sy'n ymddangos yn amlwg ormodol neu'n afresymol y dylech eu herio.

## Taliadau fel ffafr

Weithiau, gofynnir i elusennau gytuno i dalu rhywbeth i rywun sydd yn fuddiolwr o dan ewyllys un ymadawedig. Gall hi ymddangos bod rheswm moesol da iawn i wneud y taliad, a elwir yn daliad 'fel ffafr' neu 'ex gratia'. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad oes gan y CAG, fel elusen, yr un rhyddid a hawl ag unigolyn preifat i hepgor rhan o'r hyn mae ganddo hawl cyfreithiol iddo.

Fel buddiolwr gweddilliol, dim ond ar gyfer dibenion elusennol, hynny yw, dibenion eglwysig Cristnogol y gall y CAG ddefnyddio ei arian yn gyfreithlon. Os yw'r CAG, ar ôl ystyried yr achos penodol yn ofalus, yn teimlo y byddent yn gweithredu'n anfoesol drwy beidio â gwneud y taliad fel ffafr, er gwaetha'r ffaith na fyddai'r eglwys yn derbyn unrhyw fudd o hynny, gellir gwneud cais i'r Comisiwn Elusennau, a fydd yn penderfynu ynghylch yr achos. Dylech lawrlwytho a darllen llyfryn CC7 *Ex Gratia Payments by Charities* y Comisiwn Elusennau.

## Ffioedd proffesiynol

Caniateir i ysgutorion proffesiynol godi ffioedd proffesiynol rhesymol am eu gwasanaethau. Bydd y rhan fwyaf o gyfreithwyr yn codi rhwng 2.5% a 4.0% o werth gros yr ystâd (ynghyd â TAW a threuliau) a gall y gyfradd fod yn uwch ar gyfer ystadau bach neu rai mwy cymhleth. Mae banciau'n tueddu i godi tua 5%. Os ydych yn ystyried bod y ffioedd yn ormodol, gofynnwch am eglurhad. Ni chaiff ysgutorion lleyg ond hawlio eu treuliau, er enghraifft, am deithio, costau postio a ffioedd cyfreithiol. Ni allant godi tâl am eu hamser.

## Cyfrifon yr ystâd

Rhaid i ysgutorion ddarparu ar gais i fuddiolwyr gweddilliol (elusennol a heb fod yn elusennol) set o gyfrifon yr ystâd ar ddiwedd y cyfnod gweinyddu. Bydd gweinyddwyr ystadau proffesiynol yn gwneud hynny beth bynnag. Mae'r Comisiwn Elusennau yn mynnu bod elusennau sy'n fuddiolwyr i ystâd weddilliol yn gofyn am gyfrifon yr ystâd. Nid er mwyn cwestiynu dilysrwydd y gweinyddu mae hynny ond er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fater heb ei ddatrys a fyddai'n gosod rhwymedigaeth ar ymddiriedolwyr yr elusen. I sicrhau'r eglurder mwyaf, dylai'r cyfrifon gynnwys y canlynol:

- Yr asedau cyfalaf a'r rhwymedigaethau adeg marw'r ymadawedig.

- Cyfrif gwariant, i gynnwys:
    - Unrhyw dreth etifeddiant, treuliau gweinyddol a chymynroddion ariannol.
- Cyfrif incwm, yn cynnwys manylion y taliadau ers marw’r ymadawedig (yn ddelfrydol, yn ôl blwyddyn dreth)
    - Llog, difidendau, taliadau rhent.
- Cyfrif dosbarthiad, hynny yw, taliadau o’r ystâd i’r holl fuddiolwyr.

Dylid anfon cyfrifon yr ystâd at y buddiolwyr gweddilliol i’w cymeradwyo ganddynt.

# Mathau Eraill o Gymynroddion Gallech eu Derbyn

## Gwaddolion cyfalaf

Weithiau mae cymynroddion yn sefydlu gwaddolion y gellir ond defnyddio'r incwm ohonynt.

## Cymynroddion budd am oes

Sefydlir cymynrodd budd am oes (a elwir hefyd yn fudd refersiynol neu fudd gweddilliol) pan fydd cymynrodd i'r Cyngor Plwyf Eglwysig (y gweddill) yn ddarostyngedig i fuddiannau un neu ragor o unigolion (tenantiaid am oes). Efallai na fydd y Cyngor Plwyf Eglwysig yn derbyn yr arian o'r gymynrodd hyd flynyddoedd lawer ar ôl marw'r cymynnwr gwreiddiol. Yn ogystal â thai, gallai ymddiriedolaethau o'r fath gynnwys portffolios buddsoddiadau ac asedau eraill.

**Tenant am oes:** Mae'n bwysig bod y Cyngor Plwyf Eglwysig yn cadw mewn cysylltiad â'r ysgutorion tra bo'r denantiaeth am oes yn parhau, yn enwedig os yw'r gymynrodd ar gyfer yr eglwys yn fwy na £30,000. Os na wyddoch yn barod, gofynnwch beth yw oedran y tenant am oes. Os nad oes gan y tenant ddigon o adnoddau ariannol i gynnal a chadw'r eiddo neu'r ased, gall y Cyngor Plwyf Eglwysig gynnig cymorth ariannol er mwyn gwarchod ei fuddiannau hirdymor mewn ffordd resymol.

**Yn achos adeilad, dylech geisio canfod:**

- a yw wedi ei gofrestru â'r Gofrestrfa Tir ai peidio;
- ymhle mae'r gweithredoedd (os oes rhai) yn cael eu cadw;
- p'run ai a yw yn rhydd-ddaliad ynteu'n lesddaliad;
- pwy sy'n gyfrifol am yswirio'r adeilad a beth yw telerau'r yswiriant;
- pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r adeilad a sut mae hynny'n cael ei ariannu;
- a yw'r tenant am oes yn preswylio yn yr adeilad ai peidio.

**Yn achos portffolio buddsoddiadau, dylech geisio canfod:**

- manylion y buddsoddiadau a'u gwerth adeg marw'r ymadawedig;
- a oes rhywun yn rheoli'r portffolio, ac os felly, pwy;
- a ddefnyddir rheolwyr buddsoddiadau proffesiynol;
- union bwerau'r ymddiriedolwr parthed y cyfalaf a'r incwm.

# Materion Treth

## Treth etifeddiant

Treth yw treth etifeddiant ar ystâd unigolyn a adewir ar ôl iddo/iddi farw. Mae'r ystâd yn cynnwys arian, adeiladau ac eiddo. Treth ydyw, felly, ar drosglwyddo asedau oddi wrth unigolyn i unigolyn arall. Dim ond os yw gwerth ystâd yr ymadawedig uwchlaw'r trothwy treth etifeddiant (£325,000 ym mlwyddyn deth 2018) adeg marw'r unigolyn y bydd yn rhaid talu'r dreth. Bydd yr ysgutor neu'r cynrychiolydd personol fel arfer yn talu'r dreth o ystâd yr ymadawedig o fewn chwe mis ar ôl marw'r unigolyn.

Nid yw treth etifeddiant yn daladwy ar roddion a adewir i elusennau. Mae gan bob elusen rif cyfeirio elusen Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. Mae hynny'n eithrio'r elusen rhag talu treth ar unrhyw roddion a dderbynia. Mae cymynroddion a adewir i eglwysi'r Eglwys yng Nghymru hefyd wedi'u heithrio rhag talu treth etifeddiant gan fod pob Cyngor Plwyf Eglwysig yn elusen.

## Treth enillion cyfalaf

Nid yw treth enillion cyfalaf yn daladwy ar roddion a adewir i elusennau. I sicrhau'r eithriad, gall ysgutorion drosglwyddo'r asedau i enw'r elusen, ac wedyn gwerthu'r asedau fel 'ymddiriedolwr noeth' ar ran yr elusen.

Yr unig  beth mae'r trosglwyddo yn ei olygu yw bod nodyn ar ffeil yr ystâd bod yr ysgutorion wedi trosglwyddo'r asedau a'u bod bellach yn eu cadw fel asiantau'r elusen. Ar gyfer trosglwyddo tir (yn hytrach na stociau neu gyfranddaliadau) efallai bydd angen Datganiad o Ymddiriedaeth gan fod rhaid cwblhau'r trosglwyddo cyn cyfnewid contractau.

## Amrywiadau

Gall Gweithred Amrywio newid yr ewyllys pan fo hynny er budd yr holl fuddiolwyr y bydd y newid yn effeithio arnynt. Y rheswm mwyaf cyffredin dros wneud hyn yw pan fo'r ewyllys yn wael ei strwythur at ddibenion treth. Gellir llunio Gweithred Amrywio unwaith y bydd yr holl fuddiolwyr wedi cytuno. Fodd bynnag, os yw un o'r buddiolwyr yr effeithir arnynt yn blentyn dan oed, ni ellir defnyddio Gweithred Amrywio.

## Er cof

Bydd amodau rhai cymynroddion yn mynnu cadw’r rhodd neu’r rhoddwr neu weithiau’r ddau yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn fodlon i bobl wybod am eu haelioni ac yn bwysicaf oll fod hynny’n cael ei ddathlu. I lawer o bobl gadael rhodd mewn ewyllys yw’r cyfle olaf i gyflwyno rhodd fydd yn parhau i Dduw. Mae hefyd yn ffordd o wneud gwahaniaeth i ddyfodol eglwys a chymuned y rhoddwr.

Dylai’r CAG drafod y  ffordd orau o anrhydeddu’r rhodd a dderbyniwyd. Mae pob eglwys yn wahanol: mae gan rai eglwysi Lyfr Coffa, tra mae eraill yn gallu codi cofeb sydd yn fwy parhaol, megis drwy osod plac, plannu coeden, neu ysgythru ar gannwyll.

Efallai bydd y CAG yn dymuno cynnal gwasanaeth arbennig er cof am yr ymadawedig, y byddir yn gwahodd yr ysgutor a’r teulu iddo. Os yw’r CAG yn arfer cynnal gwasanaeth diolchgarwch neu wasanaeth coffa beth bynnag, gall hi fod yn briodol dathlu’r rhodd bryd hynny.

## Cadwch mewn cysylltiad

Os yw’r gymynrodd yn cael ei defnyddio i ariannu prosiect neu swydd benodol neu os yw’r eglwys yn bwriadu cynnal gwasanaeth coffa neu wasanaeth diolchgarwch, oni fyddai’n syniad gwahodd yr ysgutor a’r teulu (os yw’n briodol) i wasanaeth dathlu?

Parhewch i weddïo dros yr ymadawedig, teulu’r ymadawedig a’r ysgutor. Ar ôl ei henwi fel buddiolwr, dylai’r eglwys fod yn wirioneddol ddiolchgar, nid yn unig i’r ymadawedig, y mae ei haelioni yn galluogi’r eglwys i barhau i adeiladu Teyrnas Dduw, ond hefyd i’r ysgutor, a roes o’i (h)amser a’i (h)egni i roi haelioni’r ymadawedig ar waith.

## Gweddi Cymynrodd

*Arglwydd y byw a’r meirw, diolchwn i ti am bawb a gerddodd o’n blaenau yn ffordd Crist, y rhai a rannodd eu ffydd a’u cariad â ni, a’r rhai a fu’n hael eu*

*rhoddion i'r eglwys, i'r genedl ac i'r byd, drwy'r ffordd y buont fyw a thrwy'r gwaddol a adawsant i ni a ddaeth ar eu hôl.*

*Bydded i ninnau gyda hwy ddod i rannu yn llawenydd dy wledd nefolaidd a bendithion bywyd. Amen.*

## Derbyn y Taliad

### Dull talu

Anfonir siec yn daladwy i Cynhadledd Ardal Genhadaeth yr eglwys neu fe drosglwyddir yr arian drwy BACS i gyfrif banc y Cynhadledd Ardal Genhadaeth. Dylech fod wedi hysbysu'r ysgutor eisoes (wrth ymateb i'r hysbysiad bod

cymynrodd i ddod) ynghylch eich dewis dull o dalu. Fodd bynnag, os gofynnir am hynny eto, byddwch gystal ag ymateb yn brydlon.

Sicrhewch eich bod yn darparu derbynneb am y taliad sy’n cynnwys y dyddiad, enw’r talai a manylion y talai, y swm a dderbyniwyd a llofnod y Ficer a/neu’r Trysorydd.

## Diolch

Mae’n briodol ysgrifennu at yr ysgutor i ddiolch yn bersonol iddo/iddi am y gwasanaeth a ddarparwyd. Dylai’r CAG werthfawrogi’n llawn yr amser a’r egni a roir gan ysgutorion lleyg i’r gwaith o weinyddu ystâd.

## Taliad gydag indemniad

Gall yr ysgutor ofyn i’r CAG, unwaith y bydd y taliad wedi’i wneud, i’w (h)indemnio rhag unrhyw hawliadau pellach ar yr ystâd (gall rhwymedigaethau na wyddid amdanynt ddod i’r amlwg, neu gall rhywun herio’r ewyllys).

Dylech wrthsefyll y fath bwysau drwy groesi allan unrhyw geisiadau o’r fath ar unrhyw dderbynebau a ddarperir i chi gan yr ysgutorion. Os gwrthodant dalu heb indemniad, ychwanegwch amod sy’n cyfyngu rhwymedigaeth y CAG i werth y gymynrodd a delir ac i’w chyfran deg o’r ystâd gyfan.